# Llên natur

**Bwletin 131**
**Ionawr 2019**

gan gynnwys Y Bwrdd Natur,
adnodd i athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



© Llun gan Ann James

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd
Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk


(Rhif Elusen: 1126027)

## Hela nos, hela dydd: tylluanod



**Hela liw dydd - yr esgid yn gwasgu?** Bum yn astudio agweddau ar fywyd y dylluan wen am flynyddoedd gan gynnwys hel dyddiadau ac amseroedd hela gan bwy bynnag a aeth i'r drafferth i rannu'r wybodaeth efo mi. Dyma isod graff cylchol ohonyn nhw. Mae data'r graff yn awgrymu bod tylluanod gwynion Gwynedd yn hela liw dydd yn bennaf ym misoedd Chwefror a Mawrth (pan fo caledi gaeaf yn dechrau 'dweud' arnyn nhw). Cofnodwch fwy gan ddweud lle, pryd, a faint o'r gloch?

**Duncan Brown**




Tynnodd Alun Williams y llun uchod yn Norfolk yn Awst 2010 - ia, Awst! Yn rhai ardaloedd dywedir i'r pwysau i hela liw dydd ddigwydd y cyfnod pan fydd cywion yn y nyth. Ceiliog yw'r aderyn yma.




Fel y dywedodd
y Bardd Cocos
ers talwm

*Roedd hi'n bwrw fel o grwc,*
*Ond, roedd Noa yn ei arch. Wrth lwc!*

## Aderyn cenedlaethol Cymru




## Llun da o dywydd drwg



Mae pawb yn gallu tynnu llun da o dywydd braf - weithiau o leiaf. Ond beth am dywydd drwg: GLAW, GWYNT, NIWL, EIRA SY'N DADMAR? Wel, beth —— amdani? Turiwch yn eich hen luniau, neu byddwch yn effro i'r golygfeydd stormus o'ch cwmpas. Dyma enghraifft arbennig. Pen Morfa, Llandudno, am 9.00yb , Medi 8fed, 2018, gyda Pen y Gogarth yn y cefndir. Tywydd annifyr iawn - gwynt a glaw trwm.

**Gareth Pritchard**

## Hen arolwg i statws y bele goed yng Ngwynedd (https://cy.wikipedia.org/wiki/Bele_goed)



**Hen arolwg i statws y bele goed** - Ydych chi'n cofio cyfrannu i arolwg Eisteddfod Bro Madog yn 1987. Dyma ail argraffu'r adroddiad yn erthygl y bele goed yn Wicipedia... Ac yma hefyd i chithau yn y bwletin!

**Llyfryn bele'r coed:** Cyngor Gwarchod Natur *Nature Conservancy Council*




**Y Canlyniadau:** Ym 1987, cynhaliwyd arolwg i gyflwr poblogaeth y bele yng Nghymru. Dyma ganlyniadau'r arolwg, gyda diolch i bawb a gyfrannodd. Dewch a 'chwaneg o wybodaeth inni mae llawer i'w ddysgu am y creadur prin hwn, bele'r coed *Martes martes*.

**Sut i'w adnabod:** Anaml y'i gwelir mewn golau da. Pan yn y coed, mae'n fwy ac yn feinach ei gorff na gwiwer. Ar y ddaear gellid ei gamgymeryd am ffwlbart, ffured neu finc, ond mae'r bele yn fwy, gyda gwddf golau, clustiau amlwg a chynffon flewog iawn. Mae'n debyg i gath fawr gochfrown ond â gwedd carlwm iddi.

**Dosbarthiad:** Er yn prinhau ledled Ewrop, fe geir y bele mewn ardaloedd addas rhwng gwledydd Llychlyn yn y gogledd a pharthau Môr y Canoldir yn y de, gan gynnwys Cymru. Nis ceir y tu allan i gyfandir Ewrop. Ucheldiroedd yr Alban yw ei gadarnle ym Mhrydain gyda phoblogaethau gwan hwnt ag yma yng Ngogledd Lloegr. Fe ddeil y bele ei dir mewn sawl ardal yn yr Iwerddon.

**Cynefin:** Coedwigoedd yw ei gynefin yn bennaf, ond fe all fyw ar foelydd creigiog yng ngogledd yr Alban. Mae coedwigoedd yn fanteisiol iddo am gyfnodau tra'n tyfu. Yn Rwsia, amrywia'r boblogaeth o 0.2 bele i bob 1000 o erwau mewn planhigfa ieuanc, i 1.5/1000 erw ar ôl i'r coed aeddfedu. Gwell gan y bele goedydd collddail neu gymysg na thrwch didor o goed duon.

**Ymddygiad:** Y mae'n ddringwr penigamp, a dringa goeden fel wiwer trwy gofleidio'r bonyn ac yna esgyn yn herciog. Mae'n redwr cyflym am gyfnodau byrion ond anaml y'i ceir yn nofio. Anifail y nos yw ar y cyfan. Gwna ei wâl mewn creigiau, boncyff gwag, hen nyth a hyd yn oed mewn blychod nythu wedi eu gosod ar gyfer tylluanod! Bydd yn paru tua diwedd yr haf gan esgor ar dorllwyth o dair cathan yn y gwanwyn cynnar. Gall grwydro ardal cymaint â 30km2 yn hel ei damaid ond pan fo bwyd yn ddigonol gwnaiff 300 o erwau y tro.



**Bwyd:** Amrywia'r bwyd yn ôl y tymor, y cynefin, a beth bynnag fydd ar gael, ond fe gynnwys lygod ac adar mân a'u hwyau. Bwyteir chwilod, lindysod, llyffantod, cyrff mares ac aeron coed ar brydiau. Ffurfia wiwerod gyfran bwysig o'i ymborth yng Ngogledd Ewrop.

**Yr Oes o'r Blaen:** *"Pais Dinogad fraith fraith, O grwyn balaod ban wraith ..."* - anhysbys *circa* 8ed ganrif. Mae'n debyg [mae'n bosibl...] mai'r gân hon, gan fam i'w phlentyn, yw'r cofnod ysgrifenedig cynharaf o'r bele goed yn holl lenyddiaeth Ewrop. Gosodwyd hi ar bapur rhywbryd yn ystod yr 14 ganrif, ac er mai yn y Gymraeg y canai'r fam i'r bachgen Dinogad, nid yng Nghymru ond yng Nghymbria yr oedd cartref y teulu bach.

**Testun Dadleuon:** Beth bynnag am hanes y bele yn yng Nghymbria, bu ei hynt yng Nghymru yn destun dadleuon tan yn ddiweddar. Bu'n greadur â gwerth iddo erioed; wyth geiniog ar hugain a dalwyd am ei groen yn ôl cyfreithiau Hywel Dda yn yr unfed ganrif ar ddeg, ac fe gafodd brawd o Lanwrin, Powys ddeunaw am gorff saith canrif yn ddiweddarach.

Dyma'r manylion a gafwyd o gofnodion y plwyf hwnnw yn y flvvyddyn 1864 (gyda diolch i Mrs. Ellyw Evans, Machynlleth, am dynnu sylw atynt):

*Paid*
*3 bottles of wine 13s 0d*
*Overseer £1 1s 3d*
*Mr. E. Owen, for killing a bela 1s 6d*
*Carrying gravel at 10/ - a day £1 1s 0d*


Cael ei wobrwyo am ladd pla oedd braint Mr. Owen erbyn yr oes honno wrth gwrs, nid cael tâl am groen gwerthfawr.

Cafwyd peth wmbredd o sôn am y bele tua throad y ganrif pan ymestynai gorwelion boneddigion Lloegr fwy-fwy i gyfeiriad Cymru. Soniodd George Bolam er engraifft am olion traed bele a welodd rhyw fore o eira yng nghanol pentref Llanuwchllyn. Dilynodd y trywydd dros fryniau'r Aran gan sylwi ar olion llygoden fawr ar y ffordd a reibiwyd gan y bele yng nghysgod hen felin.

**Y Bele Heddiw :** Dengys graff **[Gr1]** i'r mwyafrif o sylwadau gael eu rhoi ar gof a chadw yn ddiweddar iawn. Efallai nad yw hyn ond i'w ddisgwyl a chysidro'r cynnydd a welwyd yn y diddordeb mewn bywyd gwyllt ers y pumdegau. Mae'n amlwg hefyd fod digwyddiadau diweddar yn debycach o ddod i'r amlwg na hen straeon. Camgymeriad felly fyddai ystyried y graff yn fesur syml o gynnydd.

Serch yr amheuon ynglŷn â dehongli'r wybodaeth, fe ymddengys mai'r gogledd yw cadarnle'r bele.

Daeth pob un namyn naw o'r 272 o sylwadau o barthau i'r gogledd o Fachynlleth. Mae'n ddirgelwch hyd yma p'un ai cynrychioli poblogaeth wasgaredig, ynteu ambell anifail caeth a ddihangodd, ynteu camgymeriad, yw'r ychydig a ddaeth i law o'r deheubarth. Yn sicr nid camgymeriad mohonynt i gyd gan mai corff sydd bellach wedi ei gadw yn yr Amgueddfa Genedelaethol yw sail un cofnod o Frycheiniog. A sôn am gamgymeriadau, amhosib yn y pen draw yw penderfynu pa mor ddibynadwy yw'r cofnodion unigol. Ni ymgeisiwyd felly i wahaniaethu rhyngddynt yn yr arolwg ar wahan i hidlo ambell ddisgrifiad oedd yn amlwg yn cyfeirio at ffwlbart. Ni wnaethpwyd hynny chwaith cyn ei gytuno gyda'r sylwebydd.


CYNGOR GWARCHOD NATUR
NATURE CONSERVANCY COUNCIL


Bele'r Coed

Arolwg 1987

Y canlyniadau


Ym 1987, cynhaliwyd arolwg i gyflwr poblogaeth y bele yng Nghymru. Dyma ganlyniadau'r arolwg, gyda diolch i bawb a gyfrannodd.

Dewch â 'chwaneg o wybodaeth inni — mae llawer i'w ddysgu am y creadur prin hwn.




Ffig. 1
Cofnodion o'r bele 1766 — 1987 a'r prif ffynonellau

**Y Bele yfory:** 'Deuparth gwaith yw ei ddechrau' medd yr hen air, a dechrau'r gwaith nid ei ddiwedd sydd yma. Ym 1988 comisiynwyd un â chanddo brofiad helaeth o'r bele yn ei wir gadarnle yn yr Alban i wneud arolwg-maes yng Nghymru. Canolbwyntiodd yn ei waith ar yr ardaloedd mwyaf addawol a amlygwyd yn Arolwg '87, ac fe gadarnhaodd yn fuan gywirdeb y wybodaeth a gasglwyd. Ond rhag i neb laesu dwylo, dylid cofio mai anifail sydd yn beryglus o brin o hyd yw bele'r coed ac mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i sicrhau ei ddyfodol.



Ffig. 4
Y chi sy'n dweud
... lle mae'r bele
Chi ddywedodd, rai ohonoch yn Eisteddfod Bro Madog, mai dyma lle gwelsoch neu y clywsoch am y bele rhwng 1980 a 1987

Ffig. 5
A nhw, yr arbenigwyr, sy'n cytuno
... lle mae'r bele
Ym 1988 aeth arbenigwr i chwilio am olion y bele trwy Gymru ac y mae'r tebygrwydd rhwng y map hwn o'i eiddo, a'ch un chwi, yn hynod.
Mae gan y bele bedwar neu bump o gadarnleoedd yng Nghymru yn ôl y mapiau hyn. Dyma fan cychwyn ei warchod.

Gallasai'r goreuon yn ein plith gamgymeryd y bele yng ngwyll y goedwig nid yn unig am ffwlbart, ond am gath, dyfrgi, minc neu lwynog, and petai hynny wedi digwydd ar raddfa helaeth, ni fyddai'r cofnodion wedi dangos dosbarthiad mor nodweddiadol.

**Bu amryw mor garedig a chofnodi enwau lleoedd gair bele — neu ystum arno — yn Than o'i gyfan-soddiad. Dyma'r rhai a ddaeth i law:**

*Bryn Bela* - enw tŷ, Caeathro, Gwynedd
*Bryn Bella*, Craig Bella - Y Fachwen, Gwynedd
*Coed Bella*
*Bryn Bella* - Lloc, Treffynnon, Clwyd.
*Gors Bela* - Rhoshirwaun
*Ffynnon Bela*
*Nany y Bele* - (= ? Nant y Bele), Rhiwabon, Clwyd (Pennant 1810)
*Castell y Bele* - Dolwyddelan, Gwynedd. (Forrest 1907)
*Cappele* - enw ffermdy, ardal Cerrig y Drudion


**Oes yna fwy ohonynt, tybed?**

Ni wyddys eto beth yw'r rhesymau am ei brinder, nac yn wir as mai ar gynnydd ynteu parhau ar drai y mae. Erfynwn felly ar bawb a gafodd, neu a gaiff, gip ar y creadur hynod hwn, i hysbysu'r Cyngor Gwarchod Natur o'r ffaith rhag blaen. I'r rhai a chanddynt ddiddordeb arbennig, da o beth fyddai iddynt chwilio am olion y bele, ei faw neu olion ei draed ar hyd llwybrau a hwylfeydd y fforestydd. Byddai haenen denau o eira yn hwyluso'r gwaith hwnnw yn fawr. Gyda mwy o wybodaeth am anghenion y bele goed yn ei gynefin yng Nghymru, bydd yn bosib, ymhen amser, i gynllunio ac i neilltuo tir ar ei gyfer, ac hefyd rhyw ddydd efallai ei drawsblannu yn ôl i'r ardaloedd a'i collodd. Ond am y tro o leiaf, fe ddangosodd pobl Cymru, yn Arolwg '87, fod y bele Yma o Hyd.

Duncan Brown
Uwch Warden, Rhanbarth Gogledd Cymru





Ffig. 2
Dosbarthiad cofnodion y bele ( o ) a'r ffwlbart ( ● ) yng Ngwynedd 1950 – 87





Ffig. 3
Cymhariaeth o'r nifer ac o ddosbarthiad cofnodion am y bele goed cyn ac ar ôl 1950.
(Dangosir lleoliad y prif goedwigoedd ar yr ail fap.)

Map o ddosbarthiad y bele heddiw (Wicipedia)




# Damweiniau a Hirlwm y Gaeaf -

**Dyma ddadansoddiad o gofnodion William Jones, Moelfre, Aberdaron a phatrwm misol ei gofnodion o ddamweiniau o wahanol fathau, boed farwol neu beidio. O'u graffio fel siart mi fuasech chi'n disgwyl iddynt ddisgyn ar hap, efallai, o fis i fis heb ffafriaeth i un cyfnod mwy na'r llall - ychydig mwy yng nghyfnod y cynhaeaf efallai, ac yn y gaeaf pan fo hi'n oer neu wlyb.**
**Ond na! Mae patrwm arbennig iawn i'r damweiniau hyn (graff 1). Ydych chi'n gallu cynnig beth yn bennaf allai gyfri am BENLLANW DAMWEINIAU YN Y GAEAF HWYR neu wanwyn cynnar, ac ychydig iawn dros gyfnod y cynhaeaf a chyfnod gefn gaeaf?**
Graff 1 (coch)
Dyma hanes pob un ddamwain a groniclir yn y graff. Digwyddai ddamweiniau a thrychinebau yn weddol gyson yn yr ardal:
(23 Mawrth 1880) Danfon buwch dew. Torais ddwy o fy asenau.
(26 Mawrth 1880) Bum yn Llanllyfni efo'r Doctor yn asio fy asenau [dylai hwn gael ei hepgor gan mai perthyn i'r un blaenorol ydi'o].
(17 Ebrill 1880) Twm yr Odyn yn syrthio a thori ei wddf yn Porth Ysgo.
(2 Mehefin 1880) Ceffylau Dwyros yn briwio gwas Carreg.
(7 Chwefror 1884) Darfu'r fuwch sathru troed Ellin" (y forwyn); dranoeth "Bu Beti'r Bîg yma yn rhoddi Gelod wrth goes Ellin…"
(14 Mawrth 1884) Syrthiodd carreg o'r simdde ar ben Ellin;
(29 Chwefror, 1884), Clywed fod damwain yn Llanllyfni pump o ddynion wedi ei lladd.
(19 Ebrill, 1884) Clywed fod ceffyl Neigwl Uchaf wedi lladd y gwas.
(16 Chwefror. 1885) Margaret Pisgah wedi marw ar ôl llosgi efo oil lamp
(28 Chwefror, 1885) Griffith Crugeran wedi marw yn y ffôs cae Nany y Garn neithiwr
(23 Mawrth, 1885) Cafodd Griffith mab Moelyberth ei ladd gan y drol trwy i'r ceffylau redeg
(16 Mai, 1885) Darfu y gwydd fy mriwio yn fy asenau wrth aredig ar y tatws yn caer Afon
(17 Chwefror 1886) Clywed fod William y Benallt wedi syrthio o Rigin llong a thorri ei wddf y ym Mhorthmadog.
(27 Ebrill 1886) Ceffylau Bodwrdda wedi rhedeg a briwio Evan y gwas.





(21 Awst 1886) Gwaed Thomas y Ship wedi cerdded ar ôl rhoddi Gelod [haemoffiliac?]
(19 Mawrth 1887) Griffith y Tocia wedi syrthio trwy ffenest y llofft.
(13 Mehefin 1887) Dyn o Llanllyfni yn cael ei ladd yn Rhiw wrth saethu cerrig.
(2 Awst 1890) Richard Felin Drygarn wedi cael ei ladd yn y Felin.
(21 Chwefror 1891) Tri o ddynion wedi eu lladd yn Tai newyddion, Pwllheli
(1 Mawrth 1891) Dafydd Policeman wedi marw ar ôl y ddamwain.
(5 Mawrth 1891) Cynhebrwng Dafydd Davies saer cerrig a gafodd ei frifo yn Pwllheli.
(20 Tachwedd 1891) Ceffyl wedi taro Griffith Meillionydd Bach a thori ei glun.
(27 Ebrill 1893) Moch wedi dychryn ceffyl Hendrebach a throes y drol a brifo y gwas.
(3 Mai 1893) Arthur Y Gilfach wedi brifo syrthio o drol y mul.
(22 Mawrth 1893) Dyn wedi syrthio o long yn Pwllheli.
(5 Ebrill 1893) Cyflawnodd gwraig Wil Jockey hunanladdiad.
(12 Ebrill 1893) Clywed fod John Llainygwallt wedi cael ei ladd yn chwarel Llanllyfni.
(14 Ebrill 1893) Elisa merch Bronyfoel wedi syrthio tros yr allt a marw.
(1 Chwefror 1894) Claudia (merch yr Hendre) dan y frech goch.




(16 Chwefror 1894) Thomas Jones Tocia wedi marw, cerbyd wedi troi arno wrth ddod o Aberdaron.
(22 Mai 1894), Dyn o Gorwen yn cael ei daro gan geffyl diwrnod ffair Pwllheli. Bu farw y noson.
(4 Mehefin 1895) Mary Tyfwg wedi marw yn y Tocia wrth ddod adref o gladdu ei modryb.
(9 Gorffennaf 1895) George Owen Carnarvon Twrna wedi marw wedi cymeryd gwenwyn.
(23 Mai 1896) John mab Robert Jones Butcher wedi lladd ei hun a'r gwella.
(3 Gorffennaf 1896) Caseg Hirwaen wedi rhoddi cic i William"; wythnos yn ddiweddarach aeth William Jones i edrych amdano, a phythefnos drachefn aeth Ellin i edrych amdano, felly mae'n ymddangos fod William Hirwaen wedi ei ddolurio yn ddrwg gan y gaseg.
(19 Awst 1896) Gwraig shop nant wedi crogi ei hun.
(25 Awst 1896) Dyn a dau geffyl wedi boddi yn agos i Portmadog.
(11 Ionawr 1897) Gwraig Evans schoolmaster Bryncroes wedi crogi ei hun neithiwr.
(23 Awst 1897) Griffith gwr Jane y Benallt wedi boddi wrth bysgota.
(11 Rhagfyr 1898) Robert Pritchard Felin Bodwrdda wedi marw dan y canser.
(1 Mawrth 1899) Griffith y Tocia wedi taflu ei ysgwydd o'i lle.
(23 Gorffennaf 1903) Sion Lonlas wedi syrthio o ben llwyth gwair a marw ar unwaith.

Ceisiodd Iwan Gwyn Williams esbonio y cyfrif isel o ddamweiniau yn yr hydref fel hyn:
"Hwyrach ei fod o'n rhy brysur adeg y cynhaeaf i gofnodi damweiniau yn ei ddyddiadur?"
**Iwan Gwyn Williams**




I roi prawf ar hynny byddai disgwyl iddo gofnodi llai yn gyffredinol - a llai aml - dros gyfnod y cynhaeaf (sef yr hydref). Dyma graff (graff 2) yn dangos bod cofnodi WJ yn eithaf cyson (ychydig yn llai yn yr hydref ond ddim llawer) dros fisoedd y flwyddyn ar hyd y cyfnod.
Graff 2 (glas)
Mae graff 3 (oren) yn cyfuno'r ddau graff blaenorol er mwyn gwaredu unrhyw ddylanwad anghysonderau yn y cofnodi yn gyffredinol. Mae'r patrwm gwaelodol yn aros. Chwefror, Mawrth ac Ebrill yw penllanw'r damweiniau. Dyma gyfnod yr HIRLWM, ddiwedd y gaeaf, pan mae pobl ar eu gwanaf ac ar eu mwyaf bregus. Rhywbeth stadegol ydi hyn wrth gwrs, ond mae'r patrwm yn amlygu ei hunan mewn misoedd marwolaeth ar gerrig beddi, ac mewn marwolaethau anifeiliaid hefyd (gweler patrwm hela y dylluan wen yn y rhifyn hwn).
Mae'r patrwm yn cael ei dorri rhywfaint gan ddamweiniau mis Awst.

## Y wawr cochaf erioed

**Gwelodd lawer ohonom y wawr cochaf erioed y bore yr 13eg o Ragfyr 2018.** Amrywiodd eich sylwadau rhwng 'hyfryd' ac '*eerie*'. 'Gwynt sych o'r dwyrain yn cario llwch a llygredd Lloegr sy'n rhoi'r cochni', meddai un. Daeth yr emyn *Ora Pro Nobis* i feddwl un arall... 'fel dydd y farn'! Beth petai'r ffotograffydd wedi rhoi'r capsiwn "Abertawe'n fflam"... ddim mor 'hyfryd' wedyn!

Dyma ddau feteorolegydd: Huw Jones, Waunfawr -


*"We're on the cusp of a big weather change (13 Rhagfyr), from the SE continental cold air of the past three days to a strong Atlantic regime, due to happen over Saturday night into Sunday morning.*

*So this morning's red sky is more like an advance warning of the change to come within 48 hours.*


*The cirrus clouds highlighted in red by the rising sun are the forerunners of the first weather front slowly advancing from the SW - Isn't weather exciting..."*

A dyma Don Perkins, Llansadwrn, Môn - Dyma adroddiad meteorolegydd arbenigol Don Perkins, Llansadwrn, Môn am y wawr coch: *"Possibly caused by scattering due to dust, I detected a slight grey dust deposition at 0900 GMT, in a cold air descent, I had lowish relative humidity of 55%, but not yet investigated."*

Gobeithio gadael i chi wybod beth oedd hanfod y llwch pan fydd DP wedi gwneud ei ymchwil.



Tai Pretoria, Caernarfon Gwawr coch ben bore 13 Rhagfyr



Y wawr coch yn goleuo i bob cyfeiriad (Waunfawr, 8yb)

Ar ôl gweld yr awyr rhyfeddol y bore yma, dyma fi'n cyrraedd meddygfa Llanrug tua 9 o'r gloch. Yn fanno roedd dynes, yn ddiarth i fi, yn sôn wrthyf yn syth am y lliwiau trawiadol yn yr awyr uwchben traeth Dinas Dinlle... 'fel Dydd y Farn' medde hi. Dyma hi wedyn yn adrodd i fi eiriau Ora Pro Nobis, Eifion Wyn.

**Gan ofn y rhyferthwy a'i Ddicter Ef...**

**Ein Tad cofia'r morwr**
**Rhwng cyfnos a gwawr**
**Mae ei long ef mor fechan**
**A'th fôr Di mor fawr.**

Profiad pleserus iawn oedd cwrdd â Mrs Dilys Roberts y bore yma. **Gill Brown**

## Pryd mae mul yn ful?

**MULOD! Faint o fulod sydd yn y byd?** Ateb: 41 miliwn, ond mae'r niferoedd yn lleihau. Wyddech chi bod yna 185 o wahanol fathau! Mewn cae ar lethrau Creigiau Rhiwledyn roedd hwn yn mochel rhag y gwynt yn Llandudno bore heddiw.
Call iawn! **Gareth Pritchard**





Pam fod jennet (y tad yn asyn) yn llai cyffredin na mul tybed? Fasach chi'n meddwl mai fel arall fasa hi gan fod stalwyn ceffyl ar gefn mules yn gryfach (i gael 'ei ffordd') na 'stalwyn' asyn ar gefn caseg? Oes yna esboniad milfeddigyniaethol tybed Jackie? **DB**

Weithiau mae stalwyn ceffyl yn gwrthod paru gydag asen. Yn aml mae paru rhwng ceffyl ac asen yn anffrwythlon. Mae 64 cromosom gan geffylau a 62 mewn asynnod. Yr wyf wedi darllen bod croesi rhywogaethau'n fwy llwyddiannus petai'r nifer uwch o gromosomau yn y fam yn hytrach na'r tad. Hefyd awgrymir weithiau nad yw croth asen yn ddigon mawr i gynnal ebol ceffyl sydd fel arfer yn fwy o faint.

**Jackie Wilmington**

## Ieir Jane Williams



**Ieir Fegla Fawr,** Y Bermo - Dyma graff o ddata am 'gynhaeaf' wyau a gofnododd Jane Williams, y Fegla Fawr, Arthog, yn 1923 yn ei dyddiadur yn ddyddiol (ar wahan i'r cyfnod o salwch ym mis Tachwedd - llun).

**Pwy sydd wedi cadw ieir erioed? Ydych neu oeddech chi yn cael wyau trwy'r flwyddyn?**

## Hela Blodau allan o'u tymor, efallai

**Cyrhaeddodd pob un o rhain yn ddiweddar fel enghreifftiau o "flodau anhymhorol". Mae rhai yn blanhigion gerddi, rhai o'r gwyllt, rhai yn flodau cynhenid, rhai wedi eu cyflwyno (rhai ers stalwm iawn). Ydi blodau nad ydynt yn naturiol gynhenid yn fwy "chwit-chwat" eu tymor blodeuo na blodau cynhenid, yn enwedig y rhai sydd yn wreiddol o'r deheuon lle nad ydynt wedi eu cyfaddasu i hinsawdd Cymru?**





*Mwg y ddaear* - Planhigyn arall yn dal i flodeuo yng nghanol mis Tachwedd. Math o fwg y ddaear (*Fumaria*), yn tyfu ar ffens ar gyrion Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun. Un o is-rywogaethau F. muralis, tybed? **Iwan Roberts**



*Rhwyddlwyn cyffredin* - Llygad doli *Veronica* yn llawn blodau ddoe yn Groeslon, gwely llathenni o hyd. Wedyn sylwais yr un peth yn yr ardd yn Waunfawr **Duncan Brown**



*Calendula a mefus* - Yn yr ardd ddoe (24-11-18) / Henllan, ger Dinbych / Cwltifarau gardd, mefus yn gynhenid. **Olwen Cottle**



*Y trilliw* - Penlon, Niwbwrch 25 Tachwedd 2018 / Cynhenid, gwyllt **Einir Tomos**



*Trwyn y llo dail eiddew* - Waliau Castell Rhuthun, heddiw, 18-11-18. Planhigyn 'gwyllt' arall yn dal yn ei flodau. Nid yw trwyn-y-llo dail eiddew (Cymbalaria muralis) yn gynhenid. Cafodd ei recordio gyntaf yn yr ynysoedd hyn yn 1640 ac mae erbyn hyn wedi hen sefydlu ar waliau a chreigiau ymhobman ag eithrio gogledd yr Alban. **Iwan Roberts**



Roedd rhein Allan yn Arthog Gwynedd ddoe 25/11/17 **Gareth Roberts**



*Heboglys clust llygoden* - Gwely gwasgaredig o HEBOGLYS CLUST LLYGODEN bore yma, clawddcochr lôn Groeslon Isaf, Waunfawr, blodau (anhymhorol?) ar ei hyd: Cynhenid, gwyllt **Duncan Brown**




*Amranwen arfor* - bore ma, nepell o fwyty Dylan's, Cricieth ... braf gweld arwyddion o'r Gwanwyn! (o ddifri, ydy gweld rhain yn 'anarferol' ganol Tachwedd?) /
Cynhenid, gwyllt. **Hugh Gwynne**



*Calendula* - Llanrhaeadr (Dyffryn Clwyd) 23/11/2018 - 103m / Cwltifar planhigyn estron **Gwyn Parry**

# Geirfa corff aderyn

**Dyma rhannau o gorff aderyn a'i wisg o blu a gymerwyd o gyfrol Iolo Williams. Mae'n syniad i arfer yr eirfa hon wrth i ni ddisgrifio'r adar yn ein postiadau. Oes yna ychwanegiadau i'r eirfa tybed?**




| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Bron** | **Prif orchudd-blu** | **Talcen** | **Gwddwf** | **Crwmp** |
| **Prif blu** | **Gorchudd-blu llai** | **Ystlys** | **Gorchudd-blu ucha'r gynffon** | |
| **Gên** | **Aden ledryw** | **Plu eilaidd** | **Troed** | **Plu trydyddol** |
| **Blaen y gynffon** | **Gorchudd-blu ochr isa'r gynffon** | **Gorchudd-blu canolig** | | |
| **Gorchudd-blu'r glust** | **Pig** | **Gwar** | **Carrai** | **Corun** |
| **Cefn** | **Coes** | **Gwegil** | **Plu'r ysgwydd** | **Gorchudd-blu mwy** |

Mae'r atebion ar gael yn:

*Llyfr Adar, Iolo Williams - Cymru ac Ewrop*

Gwasg Carreg Gwalch

